Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Comins Coch
# Comins Coch
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3BQ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Comins Coch wedi'i lleoli ym mhentref Comins Coch ddwy filltir i'r gogledd ddwyrain o Aberystwyth, yn sir Ceredigion. Mae mwyafrif y plant yn dod o'r pentref ei hun a phentref Waunfawr. Mae nifer o blant hefyd yn teithio i'r ysgol o gymunedau anghysbell. Mae plant yn dechrau yn y dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor ar ôl eu pedwerydd pen-blwydd. Mae 166 o ddisgyblion, rhwng pedair ac un ar ddeg oed, ar gofrestr yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ystyried nad yw ei dalgylch yn ffyniannus nac ychwaith dan anfantais economaidd. Mae gan ychydig dros 9% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim; mae'r ffigur hwn gryn dipyn islaw'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.

Nid yw natur y disgyblion a dderbynnir naill ai'n freintiedig nac yn ddifreintiedig ac mae'n cynnwys yr ystod gallu yn llawn. Dynodwyd bod gan ddau ddeg naw o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys tri disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Saesneg yw prif iaith bron pob un o'r disgyblion ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Addysgir Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf yn 2005.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Comins Coch yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,987 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,706 a'r isafswm yw £2,987. Mae Ysgol Gynradd Sirol Comins Coch yn safle 60 o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad presennol Ysgol Comins Coch yn rhagorol oherwydd:**

- bod cyflawniad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 ymhell uwchlaw'r disgwyliadau a'u bod yn gwneud cynnydd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Gymraeg a medrau Cymraeg disgyblion yn rhagorol;
- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a hynod effeithiol;
- bod y corff llywodraethol yn cyfrannu'n effeithiol iawn i weithdrefnau hunanarfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol; a
- bod trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff addysgu wedi'u sefydlu'n dda ac yn eithriadol o dda.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:**

- bod trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol iawn;
- bod gweithdrefnau monitro cadarn yn sicrhau bod arfarniadau o addysgu a dysgu wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol gynhwysfawr a chywir;
- bod gwybodaeth o hunanarfarnu yn cael ei defnyddio'n effeithiol iawn i ddatblygu a blaenoriaethu cynlluniau gwella gyda ffocws clir ar wella medrau;
- bod yr ysgol wedi bod yn hynod effeithiol yn sicrhau gwelliannau dros gyfnod; a
- bod yr ysgol yn myfyrio'n ofalus ar ei harferion, ei bod yn barod i dderbyn syniadau newydd ac yn chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol o wella ei darpariaeth.

## Argymhellion

A1 Datblygu'r ffordd y caiff strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu rhoi ar waith ar draws yr ysgol; a

A2 datblygu rôl staff cymorth ymhellach, gan ddatblygu eu medrau a'u harbenigedd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr ysgol yn cael ei gwahodd i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig ar gyfer Estyn yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd gan yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi cyflawni'n gyson dda o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae'r lefel hon o berfformiad ymhell uwchlaw'r disgwyliadau ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf, ac yn 2011, cyflawnodd disgyblion yn dda o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig. Gallant alw i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac maent yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith presennol. Gallant weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn parau ac mewn gwaith grŵp i gefnogi eu dysgu ei gilydd.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau siarad a gwrando da. Maent yn dangos lefelau uchel o hyder wrth ddefnyddio'r medrau hyn. Mae disgyblion hŷn yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac ar lefel briodol yn unol â'u hoedran a'u gallu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus, rhugl a mynegiannol.

Ar draws yr ysgol, mae safon gwaith ysgrifenedig bron pob disgybl yn uchel. Maent yn ysgrifennu'n annibynnol, yn aml yn estynedig ac at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dewis eang o eirfa. Maent yn sillafu geiriau'n gywir ac yn defnyddio atalnodi priodol yn dda. Mae medrau cyflwyno a llawysgrifen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn yn erbyn targedau personol ac maent yn gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'u gallu. Mae bron pob disgybl sy'n dilyn rhaglenni darllen a sillafu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn cyfnod byr. Mae pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a'r disgyblion mwy abl, yn gwneud cynnydd da iawn hefyd.

Mae medrau Cymraeg bron pob disgybl yn rhagorol. Maent yn mwynhau dysgu Cymraeg mewn ystod o bynciau ac yn defnyddio'r Gymraeg yn dda mewn cyd-addoli, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac o gwmpas yr ysgol yn gyffredinol. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o'u gwaith Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ystod eang o batrymau brawddegau yn gywir ac yn effeithiol. Maent yn holi ac yn ateb amrywiaeth o gwestiynau yn dda iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn darllen yn gywir a chyda mynegiant. Maent yn ysgrifennu yn Gymraeg gyda chywirdeb ac yn aml yn estynedig mewn ystod o bynciau. Yn 2011, roedd canlyniadau Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn rhagorol; cyflawnodd pob disgybl lefel 4 mewn Cymraeg ail iaith,

cyflawnodd 58% o ddisgyblion lefel 5, a chyflawnodd 11% ohonynt lefel 6. Mae'r canlyniadau hyn gryn dipyn yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad yn dda iawn ar bob adeg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu gwersi; maent yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac maent yn falch o'u gwaith a'u hysgol. Mae'r gyfradd presenoldeb, sef 95.9%, gryn dipyn yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deal pwysigrwydd presenoldeb da ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd yn brydlon.

Mae gan bob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn yr ysgol. Maent hefyd yn gwybod bod eu barn yn cyfrif.

Mae gan gyngor yr ysgol a'r eco gyngor rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae gan aelodau o'r ddau gyngor ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol. Maent yn gwneud penderfyniadau sy'n gwella ansawdd y profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Mae cyngor yr ysgol yn trefnu digwyddiadau codi arian fel pacio bagiau mewn archfarchnad leol i godi arian ar gyfer cael offer cae chwarae.

Mae pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch at oedolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae pob disgybl yn ymwybodol o dargedau i wella eu dysgu eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau ac yn ymgymryd yn briodol â gweithgareddau a gynlluniwyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgymryd yn dda â'u tasgau ac yn llwyddo i'w cwblhau o fewn yr amser dynodedig. Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau cymdeithasol a bywyd trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu medrau entrepreneuraidd trwy redeg siop ffrwythau'r ysgol yn llwyddiannus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac yn bodloni anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae pob un o'r athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio cynlluniau gwaith manwl a chynhwysfawr yr ysgol. Maent yn gwneud yn siŵr bod medrau allweddol yn cael eu hymgorffori ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio hwn yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn systematig ac yn sicrhau parhad a dilyniant ar gyfer dysgu'r disgyblion. Mae pob un o'r athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda i ddarparu amrywiaeth dda o brofiadau cyfoethog ac ysgogol, sy'n herio disgyblion yn briodol.

Mae'r holl athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion. Maent hefyd yn darparu ystod dda o weithgareddau diddorol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a meddwl y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, digwyddiadau cymunedol a rhaglen eang o ymweliadau preswyl ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae hyn yn cyfrannu'n dda i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae darpariaeth ragorol ar gyfer y Gymraeg. Mae pob athro yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn gwersi trwy gydol y dydd. Mae'r ysgol yn addysgu celf, daearyddiaeth, cerddoriaeth ac addysg gorfforol trwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar bynciau eraill yn ddwyieithog. Mae prosiect trochi arloesol wedi gwella safonau a chynyddu hyder disgyblion mewn defnyddio'r Gymraeg. Mae'r ysgol yn rhoi cymorth da iawn i staff wella eu medrau Cymraeg trwy ystod o gyrsiau Cymraeg. Mae'r pennaeth wedi mynychu'r cynllun Cymraeg sabothol. Mae clwb Urdd llewyrchus yn yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda iawn o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes a thraddodiadau Cymru. Mae'n dathlu'r rhan fwyaf o agweddau ar fywyd Cymru yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy, er enghraifft, trwy weithgareddau'r eco gyngor. Mae aelodau o'r eco gyngor yn frwdfrydig ac yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd yn lleol ac yn fyd-eang. Mae'r eco gyngor yn helpu monitro defnydd ynni'r ysgol a datblygu tir yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r cysylltiadau â'r gymuned leol fel adnodd dysgu. Mae dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn datblygu'n dda trwy weithgareddau masnach deg a chysylltiadau gyda sawl ysgol ledled Ewrop.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o wersi wedi'u cynllunio'n dda ac yn nodi amcanion dysgu yn glir. Mae bron pob un o'r gwersi yn adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae cydbwysedd da o ddulliau addysgu ym mhob dosbarth; fodd bynnag, mae rhai sesiynau rhagarweiniol yn rhy hir. Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio cwestiynu yn dda i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae pob un o'r staff yn gyson yn eu dull ar gyfer datblygu medrau dwyieithog disgyblion, ac maent yn fodelau iaith da. Mae athrawon a staff cymorth yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Mae gan bob un o'r staff berthynas dda gyda disgyblion, maent yn gefnogol ac yn meithrin dysgu. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio ystod dda o strategaethau ymddygiad, ac mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi disgyblion llai abl yn effeithiol. Mae'r holl athrawon yn paratoi gwaith sydd wedi'i addasu'n dda yn unol ag anghenion a gallu unigol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cyflwyno ystod o weithgareddau awyr agored sydd wedi'u cynllunio'n briodol a gwneir defnydd da o'r cyfleusterau sydd ar gael.

Mae pob un o'r athrawon yn olrhain perfformiad disgyblion yn effeithiol ac maent yn gosod targedau clir i fodloni eu hanghenion dysgu. Mae gan yr ysgol gofnodion clir a chyson o gyflawniad disgyblion. Mae athrawon wedi datblygu hyder mewn asesu a safoni gwaith disgyblion, ac adlewyrchir hyn yng nghywirdeb y canlyniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddeunydd asesu yn effeithiol ac yn ei ddadansoddi'n dda. Mae pob un o'r athrawon yn cynnig adborth sy'n cynnwys manylion priodol ac mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhoi sylwadau ar eu cynnydd eu hunain a rhoddir cyfleoedd iddynt gyfrannu i dargedau unigol. Mae'r ysgol yn rhoi ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ym

mhob dosbarth. Mae hyn yn datblygu'n dda, ond nid yw'n gyson ar draws pob dosbarth. Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn fanwl a llawn gwybodaeth ac yn amlinellu targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi gofal ac arweiniad da i'w disgyblion. Caiff pwysigrwydd iechyd corfforol ei hyrwyddo'n effeithiol trwy'r cwricwlwm a'i gefnogi gan ddatblygiad cyfleusterau chwarae yn yr awyr agored ac ystod dda o gyfleoedd allgyrsiol. Mae gweithiwr cymorth disgyblion yn ymgymryd â rôl y mentor iechyd yn effeithiol i gefnogi gwaith cyngor yr ysgol mewn gwella amseroedd chwarae a chyfleusterau chwarae yn yr awyr agored. Mae ymweliadau preswyl â Llangrannog, Caerdydd ac Iwerddon yn rhoi profiadau gwerthfawr i ddisgyblion, ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bwyta'n iach. Er enghraifft, mae'n annog byrbrydau a bocsys bwyd iach ac yn darparu siop ffrwythau a phistylloedd dŵr, ac mae disgyblion yn mynd ati i baratoi a blasu gwahanol fwydydd.

Caiff presenoldeb a phrydlondeb da eu hyrwyddo'n dda, ac eir i'r afael yn brydlon ag absenoldebau heb esboniad. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda thîm cynhwysiant yr awdurdod lleol i nodi a chefnogi disgyblion y mae eu cyfraddau presenoldeb yn peri pryder. Mae gwasanaethau ysgol-gyfan rheolaidd yn dathlu presenoldeb, ymddygiad ac ymdrech dda.

Mae swyddog cyswllt yr heddlu yr ysgol yn helpu codi ymwybyddiaeth am gamddefnyddio sylweddau, ac mae ymweliadau gan nyrs a deintydd yr ysgol yn gwella dealltwriaeth disgyblion o'u hiechyd a'u lles. Mae amser cylch a gwasanaethau dosbarth rheolaidd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant rannu eu profiadau a'u teimladau, a myfyrio arnynt. Caiff plant swil a thawedog eu cynorthwyo'n dda gan glwb ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hunan-barch. Mae'r ysgol yn manteisio'n rheolaidd ar amrywiaeth o wasanaethau cymorth arbenigol eraill sy'n rhoi arweiniad gwerthfawr i staff a disgyblion. Mae disgyblion wedi elwa'n ddiweddar ar fewnbwn gan y tîm Cymorth Teuluol; cymorth ar gyfer Saesneg fel ail iaith; therapi lleferydd ac iaith; a chyngor arbenigol ar ddarpariaeth i blant ag anableddau corfforol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt. Mae darpariaeth wedi'i chynllunio'n briodol ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai mwy abl. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir a realistig ac maent yn cefnogi cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae pob un o'r athrawon yn adolygu ac arfarnu'r cynlluniau yn rheolaidd gyda disgyblion a rhieni. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ac effeithiol gydag asiantaethau allanol perthnasol, sydd o fudd i ddisgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn annog ethos cadarnhaol, cefnogol a gofalgar lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys. Mae

gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda ac ystod o weithgareddau dosbarth priodol yn helpu codi ymwybyddiaeth a dathlu amrywiaeth. Maent hefyd yn helpu disgyblion i ddeall nad yw ymddygiad amhriodol neu ormesol yn rhan dderbyniol o fywyd ysgol. Mae'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill yn osgoi stereoteipio yn ôl rhywedd mewn modd gweithredol. Cymerir yr holl gamau rhesymol i sicrhau mynediad i ddisgyblion ag anableddau corfforol.

Caiff safle'r ysgol ei gynnal yn dda ac mae'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Mae'n ddiogel, yn ysgogol ac yn gefnogol i addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r coridorau a'r ystafelloedd dosbarth yn cynnwys nifer o arddangosiadau lliwgar a chroesawgar o waith disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl le sydd ar gael, a chaiff hyn ei fonitro, ei arfarnu a'i addasu'n rheolaidd.

Mae gan yr ysgol raglen barhaus o welliannau i'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Caiff y corff llywodraethol adroddiadau blynyddol manwl ar gyflwr ac addasrwydd y safle a'r adeiladau. Mae gwelliannau diweddar yn cynnwys mynediad gwell i'r man addysgu dynodedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mannau chwarae antur, yr ardal bywyd gwyllt a'r ardd. Mae'r datblygiadau hyn wedi cyfrannu'n dda i wella ansawdd y ddarpariaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol synnwyr clir o gyfeiriad a diwylliant sy'n ymdrechu am welliant. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu strwythur staffio effeithiol sy'n disodli dirprwy bennaeth â dau bennaeth cynorthwyol a chynorthwyydd addysgu lefel uwch. Mae hyn yn gweithio'n dda. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir ac maent yn gweddu'n dda i ofynion yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir iawn ar gynlluniau gwella.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y staff addysgu wedi hen ennill eu plwyf ac yn eithriadol o dda. Cânt eu cyflawni'n effeithiol ac maent yn cyfrannu'n sylweddol i'r safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae'r amcanion ar gyfer gwella yn cyd-fynd yn dda â'r cynlluniau gwella ysgol-gyfan, anghenion datblygu unigol a, lle bo'n briodol, datblygu medrau arweinyddiaeth. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff cymorth yn datblygu'n dda. Mae trefniadau sefydlu'r ysgol yn effeithiol iawn ac wedi rhoi cymorth gwerthfawr i staff a benodwyd yn ddiweddar.

Mae'r corff llywodraethol yn deall ei rôl yn dda. Mae ganddo ddealltwriaeth dda iawn o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Caiff ddadansoddiad o ddata sy'n llawn gwybodaeth, ac mae'n ymwybodol o'r materion sy'n deillio ohono. Mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n effeithiol iawn i weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol a'i chynlluniau gwella.

Mae'r ysgol yn myfyrio'n ofalus ar ei harferion, mae'n barod i dderbyn syniadau newydd ac yn chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol o wella'i darpariaeth.

Mae ar flaen y gad mewn llawer o ddatblygiadau cenedlaethol, fel rhoi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith, cymunedau dysgu proffesiynol, asesu ar gyfer dysgu a darpariaeth ar gyfer Cymraeg fel ail iaith. Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd fel enghraifft o arfer orau i eraill ar lefel leol a chenedlaethol fel ei gilydd. Mae'r datblygiadau hyn wedi cael effaith fuddiol iawn ar wella addysgu a dysgu.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn dadansoddi data perfformiad yn effeithiol iawn ac yn nodi tueddiadau a chynnydd perthnasol dros gyfnod. Mae arsylwadau ystafell ddosbarth a chraffu ar lyfrau yn uniongyrchol yn galluogi'r ysgol i fonitro ac arfarnu dysgu'r disgyblion yn drylwyr ac yn gywir. Mae'r pennaeth yn arfarnu safonau addysgu yn rheolaidd. Mae'r adborth a roddir i athrawon yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu perfformiad yn y dosbarth. Mae athrawon hefyd yn arsylwi eu haddysgu ei gilydd ac mae hyn yn cael effaith dda iawn ar eu datblygiad proffesiynol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cyfrannu'n dda i arfarnu safonau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i'r cymorth a'r her sylweddol a ddarperir gan adroddiadau monitro awdurdodau lleol. Defnyddir gwybodaeth o hunanarfarniadau yn effeithiol iawn i ddatblygu a blaenoriaethu cynlluniau gwella gyda ffocws clir ar wella medrau. Mae'r cynlluniau'n cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Maent hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser diffiniedig ar gyfer cwblhau ac yn nodi'r adnoddau a ddyrannwyd yn glir. Mae'r ysgol wedi bod yn hynod effeithiol yn sicrhau gwelliannau dros gyfnod. Mae wedi gwneud cynnydd da iawn yn rhoi'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol ar waith.

Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan weithredol mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, mae prosiect rhyngwladol yr ysgol wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygu arbenigedd, dealltwriaeth a morâl y staff. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi cyfrannu'n dda i ddatblygu arfer ystafell ddosbarth, a lle bo'n berthnasol, maent wedi cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu medrau arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau gydag ysgolion eraill, sefydliadau addysg uwch a gwasanaethau perthnasol yn yr awdurdod lleol. Mae cydweithredu agos gyda'r ysgolion uwchradd a chynradd partner wedi arwain at ddatblygu cynllun pontio effeithiol iawn. Gwneir defnydd effeithiol o gyfarfodydd pontio, diwrnodau ymweld a chyfarfodydd adolygu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn hyrwyddo pontio didrafferth disgyblion i ysgolion uwchradd. Cânt eu cefnogi ymhellach gan weithgareddau fel chwaraeon ac ymweliadau preswyl sy'n cael eu trefnu gydag ysgolion lleol eraill i roi cyfle i gyfarfod a datblygu cyfeillgarwch â phlant eraill sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae cysylltiadau effeithiol yn bodoli gyda choleg lleol a darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd i'r agweddau ymarferol ar hyfforddiant. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda'r Clwb Brecwast, y Clwb ôl-Ysgol a'r Clwb

Gwyliau, sydd i gyd yn cael eu cynnal ar safle'r ysgol. Mae'r rhain yn helpu hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol ac mae nifer dda yn eu mynychu.

Mae perthynas gref gyda rhieni. Mae nosweithiau rhieni wedi'u strwythuro'n dda ac mae ganddynt nodau clir. Mae'r cyfathrebu gyda rhieni yn effeithiol, a gwneir defnydd da o wefan yr ysgol, negeseuon e-bost a negeseuon testun fel ffyrdd ychwanegol o gyfathrebu. Mae'r ysgol yn darparu taflenni gwybodaeth fel Diwrnodau Cyntaf yn Ysgol Comins Coch (First Days at Ysgol Comins Coch), Amdanaf Fi (All about Me) a'r Eisteddfod i helpu rhoi gwybod i rieni am fywyd yr ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon, sy'n weithgar, yn cyfrannu'n dda i les ariannol a chymdeithasol yr ysgol. Mae'r ysgol yn annog rhieni i gefnogi disgyblion trwy weithdai mewn meysydd fel mathemateg i esbonio dulliau a strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol. Caiff dosbarthiadau dysgu Cymraeg eu trefnu hefyd ar gyfer rhieni sydd am wella eu medrau a rhoi cymorth i ddisgyblion.

Mae partneriaeth yr ysgol â gwasanaeth datblygu ysgolion yr awdurdod lleol yn cael effaith dda ar ddarpariaeth a safonau. Caiff yr ysgol ei chefnogi a'i herio'n effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i gyflwyno ei chwricwlwm yn effeithiol. Mae'n bodloni anghenion datblygu'r staff yn dda iawn trwy systemau rheoli perfformiad. Caiff pob un o'r staff perthnasol yr amser gofynnol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a defnyddir hyn yn effeithiol i rannu arfer dda, monitro, cynllunio a pharatoi adnoddau. Mae'r cynorthwyydd addysgu ar lefel uwch yn rheoli'r defnydd o staff cymorth yn effeithiol iawn. Mae strwythur staffio'r ysgol yn egluro rolau a chyfrifoldebau pob un o'r staff. Mae disgrifiadau swydd manwl wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd y staff yn effeithiol i addysgu gwersi penodol fel cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau allanol ac yn cynnig ymweliadau preswyl â phob disgybl ym Mlwyddyn 4 ac yn uwch. Caiff pob disgybl gyfleoedd ar gyfer ymweliadau addysgol rheolaidd ac ar gyfer defnyddio adnoddau cymunedol fel Canolfan y Celfyddydau, yr amgueddfa a'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae adnoddau da iawn yn yr ysgol, a chaiff adnoddau dysgu eu harchwilio, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol yn dda iawn.

Caiff cyllideb yr ysgol ei dyrannu'n effeithiol i fodloni ei blaenoriaethau ac fe gaiff ei monitro'n briodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyllid a gaiff ac mae'n rhoi gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

### Sylwebaeth ar ddata perfformiad

Dros y pedair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig yn 11 oed) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% uchaf yn gyson o'i chymharu â meincnodau cenedlaethol ar gyfer ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol hefyd wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r lefel hon o berfformiad ymhell uwchlaw'r disgwyliadau ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ac eithrio gwyddoniaeth yn 2010, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 5 uwch ac yn uwch ar gyfer pob pwnc craidd wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a chyfartaledd Cymru am y pedair blynedd diwethaf. Cyflawnodd rhai disgyblion lefel 6 naill ai mewn Saesneg, gwyddoniaeth neu Gymraeg yn 2011.

Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 1, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig yn saith oed) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf o'i chymharu â meincnodau cenedlaethol ar gyfer ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad ar gyfer y cyfnod allweddol hefyd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac mae wedi dangos tuedd cyson ar i fyny am y tair blynedd diwethaf. Roedd perfformiad ar y lefel 3 uchaf ac yn uwch uwchlaw'r cyfartaledd cyfartaledd teuluol mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn 2011, ond islaw'r cyfartaledd hwn yn y flwyddyn flaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 1, perfformiodd bechgyn yn well na merched ar y lefel 2 ddisgwyliedig yn 2010 a 2011 fel ei gilydd. Yng nghyfnod allweddol 2, perfformiodd merched ychydig yn well. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn yn erbyn targedau personol ac maent yn gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'u gallu. Mae bron pob disgybl sy'n dilyn rhaglenni darllen a sillafu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn cyfnod byr. Mae pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a'r disgyblion mwy abl, yn gwneud cynnydd da iawn hefyd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywed pob un o'r disgyblion fod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach, ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a dywed pob un ohonynt fod yr athrawon ac oedolion eraill yn helpu iddynt ddysgu a gwneud cynnydd. Dywed llawer o ddisgyblion fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith, a bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Dywed llawer o ddisgyblion hefyd fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio.

Dywed pob un o'r rhieni eu bod yn fodlon â'r ysgol a dywed bron pob un ohonynt ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Maent i gyd yn nodi bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yno. Dywed y rhan fwyaf o rieni eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Dywed pob un ohonynt fod disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae bron pob un o'r rhieni hefyd yn teimlo eu bod yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem, a dywed pob un ohonynt fod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgynefino yn dda pan ddechreuodd yn yr ysgol yn gyntaf. Dywed ychydig iawn o rieni nad yw'r gwaith cartref a ddarperir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Mainwaring | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tom Fanning (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i bob rhiant yn yr ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |